



Plannu gwrychoedd:
atebion i 18 cwestiwn cyffredin



y goedwig hir
long forest

Plannu gwrychoedd: atebion i 18 cwestiwn cyffredin

Paratowyd ar ran y Grŵp Llywio ar gyfer Cynllun Gweithredu'r Deyrnas Unedig ar Fioamrywiaeth ar gyfer Gwrychoedd a diweddarwyd yn 2018.

Bydd y llyfryn hwn yn cynorthwyo rheolwyr tir i wneud penderfyniadau ynghylch sut i blannu gwrychoedd a chael canlyniadau da. Yn benodol, mae'n cynnig cyngor ynghylch rhai pwyntiau i'w cadw mewn golwg cyn i chi ddechrau plannu, ynghylch ystyriaethau ymarferol plannu gwrychoedd, ac ynghylch rheolaeth ddilynol briodol.

C 1. Beth yw prif fanteision plannu gwrychoedd newydd?

Mae gwrych da yn ased gwerthfawr: mae'n gallu gweithredu fel ffin cadw stoc, mae'n gallu rhoi cysgod, gwella tirwedd a bod yn llesol i fywyd gwyllt. Mae gwrychoedd

newydd sy'n cysylltu â gwrychoedd presennol neu gynefinoedd eraill megis coetir neu brysgwydd yn debygol o fod yn arbennig o werthfawr.

Mae'n bwysig cael amcanion eglur mewn



golwg cyn plannu gwrych newydd. Bydd bod yn eglur ynghylch y rhesymau dros blannu yn gwneud dewis y rhywogaethau cywir yn llawer haws, ynghyd â phenderfynu ar y bylchiad rhwng planhigion ac ôl-ofal y gwrych newydd.

C 2. Beth yw'r lleoliad gorau ar gyfer gwrych newydd?

Fel arfer, mae'n well plannu gwrych newydd mewn man lle bydd yn ategu neu lenwi'r bylchau mewn unrhyw rwydwaith presennol o wrychoedd, neu lle bydd yn helpu i ail-greu patrymau hanesyddol blaenorol o wrychoedd, neu lle bydd yn cysylltu cynefinoedd coediog neu brysgwydd eraill. Hefyd gellir eu plannu i guddio hyllbethau neu i greu atalwyr gwynf.

Gallai gwrychoedd a blannir ar draws tirweddau sy'n agored yn nodweddiadol gael effaith niweidiol nid yn unig ar y dirwedd ond hefyd ar fywyd gwyllt. Er enghraifft, gallai adar sy'n bridio megis cornchwilogod sy'n ffafrio manau agored eang fod yn agored i niwed gan ysglyfaethwyr megis brain a llwynogod a ddenir gan wrychoedd. Mae angen meddwl yn ofalus ynghylch plannu gwrychoedd wrth ymyl hawliau tramwy cyhoeddus - gallent fod yn fuddiol i ddefnyddwyr o ran ychwanegu diddordeb a nodi'r llwybr, neu gallent rwystro'r olygfa a chreu baich rheoli.

C 3. Pa adeg o'r flwyddyn sydd orau ar gyfer plannu gwrych newydd?

Gellir plannu planhigion â gwreiddiau noeth rhwng diwedd mis Hydref a diwedd mis Mawrth. Yn gyffredinol, mae'n well plannu'n gynnar yn y tymor, cyn mis Ionawr, i roi mwy o amser i'r planhigion sefydlu rhwydwaith o wreiddiau bwydo cyn daw'r

gwanwyn. Fodd bynnag, os ydych yn plannu mewn tir cleiog, mae'n bosibl y bydd yn well aros tan ddechrau mis Mawrth gan fod rhew trwm yn gallu achosi gwthiad rhew gan ddadorchuddio gwreiddiau. Hefyd, o blannu'n gynnar, mae perygl y bydd gwreiddiau'n pydru mewn pridd â draeniad gwael. Peidiwch byth â phlannu mewn tywydd rhewllyd neu os yw'r ddaear yn llawn dŵr. Yn ddelfrydol, dylech blannu ar ddiwrnod llonydd, llaith, i atal gwreiddiau rhag sychu a lleihau'r straen ar y planhigion.

C 4. Pa rywogaethau yw'r gorau i'w plannu?

Mae cyfansoddiad gwrychoedd o ran rhywogaethau yn amrywio'n fawr iawn rhwng rhannau gwahanol o'r wlad, gan adlewyrchu newidiadau mewn hinsawdd, uchder a daeareg yn ogystal â thraddodiadau lleol. Ar y cyfan, dylid plannu rhywogaethau sydd eisoes yn bresennol mewn wrychoedd yn yr ardal. Mae'r rhain yn fwy tebygol o ffynnu yn yr hinsawdd a phriddoedd lleol a bod yn gydnaws â chymeriad y dirwedd.

Ledied Cymru mae gwahanol dduliliau o reoli gwrychoedd wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd sy'n addas ar gyfer y pridd a'r hinsawdd, y gwahanol arferion ffermio a'r mathau o goed a phrysgwydd sy'n ffynnu ym mhob ardal. Ar ffin Cymru, er enghraifft, lle mai gwaith gwrychoedd yw cadw defaid i mewn yn hytrach na gwarheg cryf, bydd hen bren marw yn cael ei rol'n ami iawn mewn gwrch sydd newydd ei osod i atal y defaid rhag bwyfa'r blagur sy'n adfywio. Mewn rhannau o'ogledd a gorllewin Cymru, mae linellau'r gwrychoedd yn ami ar ffurf cloddiau gyda neu heb goed a phrysgwydd gwrychoedd y gellir eu hadnabod yn tyfu ar eu hyd.



Yn gyffredinol, mae gwrychoedd sydd â nifer o rywogaethau coediog yn fwy gwerthfawr ar gyfer bywyd gwyllt, felly fel arfer mae'n syniad da i blannu cymysgedd o blanhigion gwahanol. Defnyddiwch rywogaethau sy'n nodweddiadol o'r ardal leol. Bydd y rhain fel arfer yn cynnwys drain gwynion neu ddrain duon oherwydd eu bod yn dda ar gyfer cadw anifeiliaid, a chyll yn Nwyrain Cymru. Bydd un neu fwy o'r tair rhywogaeth hyn fel arfer yn ffurfio o leiaf 60% o'r gymysgedd a blannir.

Gellir defnyddio rhywogaethau llwyni brodorol eraill ar gyfer gweddill y cynnwys, yn ddefnyddol y rhywogaethau a geir yn lleol ac sy'n ffynnu yn yr hinsawdd a phriddoedd lleol. Mae'n well cymysgu'r llwyni llai niferus hyn ar hap â'r prif rywogaethau, nid eu plannu mewn blociau. Os yw gwrychoedd sy'n cynnwys un rhywogaeth yn unig yn nodweddiadol yn y dirwedd, efallai y byddwch eisiau defnyddio un rhywogaeth o'r fath yn unig yn eich gwrych newydd, yn enwedig os ydych eisiau adlewyrchu traddodiad lleol a threftadaeth hanesyddol leol.

Mae'n bosibl y bydd y ffordd rydych yn bwriadu rheoli eich gwrych newydd yn y tymor hir yn dylanwadu ar y rhywogaethau y byddwch yn eu plannu. Gall drain gwynion, drain duon a chyll wrthsefyll tocio rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o goed a llwyni llydanddail yn ymateb yn dda i fondocio, ac eithrio ffawydd. Mae cwytros, piswydd a chorswig yn anodd eu plygu. Mae celyn a ffawydd yn tyfu'n dda yng nghysgod coed gwrych aeddfed. Gall rhywogaethau megis ynn, deri a helyg dyfu'n fawr iawn.

Hefyd, efallai y byddwch yn dymuno annog

rhywogaethau bywyd gwyllt sydd ag anghenion penodol o ran cynefin. Mae'r brithribin brown, er enghraifft, yn löyn byw anghyffredin sy'n dodwy ei wyau ar ddrain duon yn unig, ac mae lindys glöynnod melynion y rhafnwydd yn bwydo ar rafnwydd a breuwydd yn unig.

C 5. Beth yw'r ffnhonnell orau ar gyfer planhigion gwrychoedd?

Er mwyn lleihau'r bygythiad y mae plâu a chlefydau a fewnforiwyd yn ei achosi i'n coed a'n llwyni brodorol, mae'n bwysig bod y stoc a brynwch wedi'i dyfu o hadau sy'n tarddu o'r DU ac sydd wedi bod yn tyfu yma'n unig trwy gydol eu hoes. Mae'r Cynllun Sicrwydd Tarddiad a Thyfu yn y DU

Gwreiddyn ffibrog.





Cadwch blanhigion mewn bag hyd nes daw'r union amser i'w plannu.

(UKSG) yn fenter wirfoddol i feithrinfeydd coedwigoedd sy'n gwarantu hyn. Bydd coed a llwyni brodorol a dyfir o hadau sy'n lleol i'ch ardal chi yn sefydlu'n fwy llwyddiannus gan y byddant wedi addasu'n well i amodau lleol a bydd ganddynt yr amrywiaeth enetig i addasu i newid hinsawdd yn y dyfodol. Gellir prynu planhigion â gwreiddiau noeth neu stoc a dyfwyd mewn celloedd neu botiau.

C 6. Beth yw'r maint gorau ar gyfer plannu?

Y planhigion rhataf a hawsaf eu cael yw'r rhai a ddaw â gwreiddiau noeth, a elwir yn aml yn 'chwipiau'. Fel arfer, mae'r rhain ar gael ar ddiwedd yr hydref, ac mae tri maint: 30-45cm, 45-60cm a 60-90cm. Argymhellir chwipiau 45-60cm ar gyfer cynlluniau plannu ar raddfa fawr, gan mai'r rhain sy'n sefydlu'n fwyaf llwyddiannus. Fodd bynnag, mae rhai rhywogaethau megis celyn fel arfer ond ar gael fel planhigion

mwy drud a dyfwyd mewn potiau neu gelloedd.

C 7. Sut dylwn i ofalu am blanhigion rhwng eu prynu a'u plannu?

Mae storio, trafod a chludo gofalus yn allweddol i sefydlu gwrych yn llwyddiannus. Dylai planhigion â gwreiddiau noeth gael eu cyflenwi mewn bagiau polythen a dylid eu cadw yn y bagiau wrth eu cludo. Os byddant yn cael eu plannu o fewn pedwar diwrnod, gellir cadw'r chwipiau yn y bagiau, cyn belled â'u bod yn cael eu cadw mewn amgylchedd oer di-rew a'u bod yn cael eu dyfrio'n rheolaidd. Os byddant yn cael eu storio am gyfnodau hirach, bydd angen eu priddo dros dro. I wneud hyn, agorwch ffos o ddyfnder un rhaw, gan gloddio ar ongl o 50 gradd ar un ochr a thaflu'r pridd i'r ochr gyferbyn. Gosodwch fwndeli cyfan o blanhigion yn dynn yn erbyn yr ochr onglog, a rhowch y pridd a gloddiwyd yn ôl dros wreiddiau'r planhigion gan ei wasgu'n weddol gadarn a'i ddyfrio. Gellir storio planhigion yn y modd hwn am nifer o fisoedd. Hefyd gellir cadw planhigion a dyfwyd mewn potiau neu gelloedd am nifer o fisoedd, cyn belled â bod y planhigion yn cael eu cadw'n llaith a'u diogelu rhag rhew.

Cymerwch ofal mawr o'r gwreiddiau cyn plannu, gan eu cadw dan orchudd bob amser, yn enwedig pan mae'n heulog neu'n wyntog. Wrth blannu gwrych cymysg, ceisiwch osgoi bod â mwy nag un bag ar agor ar unrhyw adeg. Plannwch y rhywogaethau llai niferus yn gyntaf, un ar y tro, gan eu gosod ar hap ar hyd y gwrych. Wedyn, llenwch y bylchau â'r prif rywogaethau.

C 8. A oes angen paratoi'r tir cyn plannu? Os gallwch chi, bydd paratoi'r tir yn drylwyr yn golygu y bydd planhigion newydd yn debygol o sefydlu'n llawer haws. Anelwch at ddarparu amodau da o ran pridd a chyn lleied o gystadleuaeth ag y bo modd gan llystyfiant arall. Yn ddefnyddol, plannwch mewn pridd noeth a baratowyd drwy ei droi, ei drin â chwynladdwr, tynnu tyweirch neu drwy adeiladu clawdd. Os byddwch yn defnyddio chwynladdwr, ceisiwch chwistrellu'r llystyfiant presennol ym mis Awst neu fis Medi cyn plannu, ac os bydd modd, trowch y pridd wedi hynny. Mae plannu mewn glastir sefydlog yn bosibl, ond bydd angen mwy o ofal ar y planhigion newydd a bydd mwy o berygl y byddant yn methu.

C 9. Pa ddull plannu sy'n gweithio'n dda? Lle mae'r pridd yn ddwfn a briwsionllyd, gellir plannu planhigion yn syml mewn slotiau. Dyma'r dull cyflymaf ac mae'n addas ar gyfer eginblanhigion neu drawsblaniadau â gwreiddiau mân. Dull

arall yw plannu mewn rhiciau ar ffurf T, sydd yn creu gofod plannu mwy o faint, yn arbennig o ddefnyddiol mewn priddoedd trwm. Os yw'r safle'n wlyb iawn, mae plannu ar dwmpath yh effeithiol i godi'r wella'r draeniad o amgylch eu gwreiddiau.

C 10. Faint o blanhigion fyddaf angen eu defnyddio?

Fel arfer, caiff gwrychoedd eu plannu mewn rhes ddwbl igam-ogam. Wrth benderfynu pa batrwm i'w ddilyn, meddyliwch pam rydych chi'n plannu'r gwrych a sut rydych chi'n bwriadu ei reoli. Edrychwch o'ch cwmpas yn uniongyrchol ac asesu a fydd gwrychoedd presennol yn cynnig templed da. Mae gwrychoedd a blannwyd mewn rhes ddwbl igam-ogam yn tueddu i fod yn well ar gyfer bywyd gwyllt na rhesi sengl gan eu bod yn fwy llydan ac yn rhoi mwy o gysgod a chynefin. Yn wir, gorau po fwyaf llydan yw'r gwrych. Fel canllaw, awgrymw'n adael o leiaf 40cm rhwng pob rhes a phlannu pedwar i chwe phlanhigion i bob metr.



Mae'n bosibl y bydd angen plannu planhigion newydd i gymryd lle unrhyw blanhigion sy'n marw yn y blynyddoedd cyntaf i osgoi bylchau.

C 11. A oes angen diogelu gwrychoedd sydd newydd eu plannu?

Gallai gwrychoedd newydd fod yn agored i ddifrod gan anifeiliaid sy'n pori, cwningod, ysgyfarnogod neu geirw ac felly mae angen eu hamddiffyn. Ond mae ffensys a mesurau amddiffyn eraill megis gwarchodwyr rhag cwningod yn ddrud felly treuliwch rywfaint o amser i sicrhau bod eu hangen. Os nad oes problem hysbys gyda chwningod neu ysgyfarnogod, gallai gwarchodwyr troellog fod yn wrthgynhyrchiol, gan annog tyfiant coesfain, ac maen nhw'n anodd eu tynnu yn ogystal â bod yn hyll. Mae gosod rhwydi'n

Coed gwrych aeddfed.

ffordd arall o ddiogelu, naill ai ar eu pen eu hunain neu wedi'u cyfuno â ffensys stoc. I fod yn effeithiol yn erbyn cwningod, mae'n rhaid gosod y 25cm isaf i gyfeiriad yr ymosodiad a phegio'r rhwyd yn gadarn i'r ddaear.

Fel arfer bydd angen ffensys stoc lle mae tir yn cael ei bori gan ddefaid, gwartheg neu geffylau, ond mae hyn yn gallu gwneud rheoli gwrychoedd yn fwy anodd. Os oes angen ffens, dylech ei gosod yn ddigon pell i ffwrdd i alluogi'r gwrych i dyfu hyd at o leiaf 1.5m o led. Wrth osod ffens 1.0m ymhellach i ffwrdd, bydd modd ymestyn dros y ffens i dorri ymyl ac ochr y gwrych, gan wneud rheolaeth yn haws a darparu cynefin rhagorol ar gyfer bywyd gwylt. Mae ffensys trydan yn ddewis arall.



C 12. Rwyf eisiau cynnwys coed yn fy ngwrych. Beth yw'r ffordd orau o wneud hyn?

Mae'n haws plannu coed gwrych adeg plannu'r gwrych yn hytrach na gwneud hyn yn nes ymlaen. Mae'r rhan fwyaf o rywogaethau coed brodorol yn addas, gan gynnwys deri, ynn, ffawydd, masarn bach, ceirios duon, oestrwydd a chelyn. Yn ddefnyddol, dylech ddefnyddio rhywogaethau sydd eisoes yn tyfu yn yr ardal, a buddsoddi mewn planhigion cadarn. Mae chwipiau (planhigion 1 i 1.5m o daldra) yn rhad, yn hawdd eu symud, ac fel arfer maen nhw'n sefydlu'n well na phlanhigion mwy o faint. Mae planhigion a dyfywd mewn potiau yn ddrutach ond gellir eu plannu drwy gydol y flwyddyn, ac maen nhw ar gael mewn amrywiaeth o feintiau. Erbyn hyn, ystyrir bod angen polion neu gynalyddion eraill ar gyfer coed sydd dros 1m o daldra yn unig, ac yn eu blwyddyn gyntaf yn unig. Lle mae perygl o bori, defnyddiwch loches goed i atal unrhyw ddfrod. Ar ôl plannu, defnyddiwch bolyn marcio a thag coeden os oes angen, i helpu i atal y coed rhag cael eu torri gyda gweddill y gwrych. Dylai coed ifanc fod yn ddigon pell oddi wrth ei gilydd i'w galluogi i ddatblygu corunau llawn heb gystadlu neu greu gormod o gysgod. Bydd llawer o ffermwyr eisiau eu gosod yn bellach oddi wrth ei gilydd gan fod torwyr mecanyddol yn ei chael yn anodd gweithio rhwng coed sy'n agos at ei gilydd. Ceisiwch amrywio'r pellteroedd rhwng coed er mwyn creu tirwedd fwy naturiol. Edrychwch o'ch amgylch i weld beth fyddai'n fwyaf priodol.

C 13. Pa mor fuan ar ôl plannu y mae orau i ddechrau torri'r gwrych?

Byddocio'r gwrych yn ysgafn a rheolaidd

yn y blynyddoedd cynnar yn annog tyfiant trwchus, ffluwchog, ac argymhellir hyn.

C 14. A fydd angen i mi reoli chwyrn ymhellach yn dilyn plannu?

Mae'n bosibl y bydd angen rheoli chwyrn i ryw raddau, yn arbennig os bu'n anodd paratoi'r tir yn drylwyr cyn plannu. Bydd unrhyw blanhigyn sy'n cystadlu â phlanhigion gwrychoedd am faeth, lleithder a golau, gan gynnwys mieri, danadl a gweiriau, yn debygol o leihau cyfraddau tyfiant.



Gwrych newydd ei blannu gyda choeden wrych.



I weirlöynnod y perthi, mae pyrth heulog mewn gwrychoedd yn cyfateb i lennyrch mewn coetir.

Y ffyrdd mwyaf cyffredin o reoli chwyn yw trwy ddefnyddio tomwellt a chwynladdwyr a thrwy dorri. Haen o ddeunydd a osodir ar wyneb y pridd yw tomwellt ac mae'n atal tyfiant chwyn ac yn cadw lleithder yn y pridd. Mae tomwellt yn cynnwys gwellt, rhisgl wedi'i gompostio a naddion pren. Rhowch y rhain ar wyneb y pridd yn syth ar ôl plannu. Mae polythen du a gorchuddion tomwellt eraill ar gael hefyd a gellir eu gosod naill ai cyn plannu neu ar ôl plannu. Mae chwynladdwyr yn rhatach a haws eu defnyddio na thomwellt i gychwyn, ond gydag amser maen nhw'n gallu profi'n ddrutach. Er bod hynny'n cymryd llawer o amser, mae torri rhywogaethau cystadleuol megis mieri a danadl yn ôl â llaw gyda bachyn yn gallu bod yn effeithiol.

C 15. A fydd angen i mi ddyfrio'r planhigion newydd?

Mae dyfrio'n anymarferol fel arfer oni

bai eich bod yn buddsoddi mewn pibell dyllog ddrud. Caiff yr angen i ddyfrio ei leihau os rheolir chwyn cyn ac ar ôl plannu. Mae defnyddio tomwellt yn helpu i gadw lleithder yn y pridd.

C 16. A yw'r ffordd y caiff tir cyfagos i wrych newydd ei reoli yn bwysig?

Bydd llain o laswelltir o leiaf 2m o led y naill ochr a'r llall i'r gwrych newydd yn cynyddu ei werth yn fawr ar gyfer bywyd gwyllt, yn arbennig os bydd yn cynnwys amrywiaeth dda o berlysiâu a phlanhigion eraill. Bydd ymylon glaswelltlog hefyd yn helpu i ddiogelu'r gwrych rhag chwistrelliadau a gwrteithiau. Ceisiwch osgoi taenu gwrteithiau ar yr ymylon, a defnyddiwch chwynladdwyr i drin chwyn unigol yn unig. Yn ddefnyddol, ceisiwch reoli pob ymyl mewn dwy ran. Torrwch y rhan sydd agosaf at y gwrych unwaith bob ychydig o flynyddoedd yn unig i annog glaswellt twmpathog, a

thorwch yr hanner arall yn flynyddol ar ôl canol mis Gorffennaf.

C 17. A oes modd plannu i lenwi bylchau mewn gwrych presennol?

Oes, ond mae'n rhaid cymryd gofal mawr i sicrhau na fydd y planhigion newydd yn cael eu cysgodi gormod gan blanhigion presennol. Gall tocio caled neu hyd yn oed fondocio llwyni cyfagos fod o gymorth. Beth bynnag, bydd rheoli llystyfiant cystadleuol yn ystod y blynyddoedd cyntaf yn hanfodol. Os byddwch yn defnyddio chwynladdwyr, cymerwch ofal mawr i beidio â niweidio'r gwrych presennol neu unrhyw fflora diddorol ar y tir. Os datblygodd bylchau oherwydd cysgodi gan goed aeddfed, defnyddiwch blanhigion sy'n goddef cysgod

neu ystyriwch gael gwared ar ganghennau is y goeden i roi mwy o olau.

C 18. A oes unrhyw gymorth grant ar gael ar gyfer plannu gwrychoedd?

Yn aml, bydd cyllid i blannu gwrychoedd ac i ffensio ar gael drwy raglenni amaeth-amgylcheddol Llywodraeth Cymru. Mae gan Goed Cadw hefyd nifer o ffyrdd o gynorthwyo tirlfeddianwyr i blannu coed trwy gyfrwng ei gynlluniau cyllido ei hun, gan gynnwys gwrychoedd a choed gwrych. Cysylltwch â'i dîm Creu Coetiroedd er mwyn cael cymorth a chingor gyda'ch prosiect plannu (0330 333 5303 neu "<http://woodlandtrust.org.uk/enquiry>").



Llun ar y clawr blaen: Gwrych sydd newydd ei blannu, â gwarchodwyr troellog.

Gellir lawrlwytho cynnwys y pecyn hwn o www.longforest.cymru/cy hefyd.

Am ragor o gymorth neu gyngor cysylltwch â longforest@keepwalestidy.cymru

Mae Cadwch Gymru'n Daclus, gan weithio mewn partneriaeth â Choed Cadw, gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Sefydliad Esmée Fairbairn, wedi datblygu prosiect y Goedwig Hir. Ynghyd, byddwn yn gweithredu'n ymarferol – gan recriwtio miloedd o wirfoddolwyr i blannu 100,000 o goed a gwella tua 120,000m o wrychoedd yng Nghymru.

Mae'r gyfres hon o lyfrynau yn seiliedig ar y rhai mewn pecyn cynharach a gynhyrchwyd gan Hedgelink UK a Natural England. Rydym yn ddiolchgar am eu caniatâd caredig i atgynhyrchu eu deunydd yn y cyhoeddiad dwyieithog hwn, sydd wedi'i ddiweddarau a'i ddiwygio.

Argraffwyd ar ddeunydd wedi'i ailgylchu 100% gan ddefnyddio inciau llysieuol gan Symposium Print, Llandŵ, CF71 7PF info@symposiumprint.co.uk



cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy



Esmée
Fairbairn
FOUNDATION



COED CADW
WOODLAND
TRUST



Funding raised by
The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund

**Cyllid a godwyd gan
Y Loteri Genedlaethol**

ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri



y goedwig hir
long forest